# SL(6)591 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn addasu symiau'r cymorth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud yn unol â mesur o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud cywiriad i destun Cymraeg Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn nodi:

> *"Mae rheoliadau 7 i 20 a 22 i 32 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018) yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn*

*academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio".*

Nid oes diffiniad o "blwyddyn academaidd" yn y Rheoliadau hyn. Diffinnir y term yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae ystyr gwahanol i "blwyddyn academaidd" mewn perthynas â "cwrs blwyddyn gyntaf gywasgedig" ym mhob un o'r Rheoliadau hynny. Fel y cyfryw, nid yw'n glir ai'r bwriad yw bod gan "blwyddyn academaidd" yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn â'r ystyr a ragnodir gan y naill neu'r llall o'r Rheoliadau hynny, neu ystyr gwahanol.

Rydym yn nodi bod deddfwriaeth arall (megis Rheoliadau Addysg (Ffioedd, Dyfarniadau a Chymorth Myfyrwyr) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 (O.S. 2024/669) a Rheoliadau Addysg (Ffioedd, Dyfarniadau a Chymorth Myfyrwyr) (Diwygio) 2025 (O.S. 2025/162)) yn cynnwys diffiniad o "blwyddyn academaidd".

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi fel a ganlyn:

*"Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a buddiannau tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn."*

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ym mharagraff 6.1 bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal:

*"Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2025."*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys yn ddiweddarach yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ym mharagraff 5.1 na fu unrhyw ymgynghori mewn perthynas â'r Rheoliadau:

*"Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ym mharagraff 6.3:

> *"yn hanesyddol, mae gwerth y cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 wedi cynyddu bob blwyddyn yn ôl cyfradd cynnydd y Cyflog Byw Cenedlaethol"*.

7.3% fyddai'r cynnydd i gyfraddau cymorth cynhaliaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yn seiliedig ar y Cyflog Byw Cenedlaethol (gweler paragraff 6.4(a) o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol). Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai'r *"opsiwn hwn yw'r risg ariannol fwyaf ac fe'i diystyrwyd"* (paragraff 6.4(a)). Yn y cyfamser, byddai codiad seiliedig ar y CPI yn arwain at gynnydd arfaethedig is o 1.6% (gweler paragraff 6.4(b)), a dewiswyd yr opsiwn hwn.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mynd ymlaen i ddatgan ym mharagraff 6.5 bod "[y] rhan fwyaf o lwfansau, cyfraddau cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig, a chyfraddau cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig cyn 2018, yn caeleu cynyddu bob blwyddyn yn ôl mesur chwyddiant a ragwelir, yn hanesyddol y Mynegai Prisiau Manwerthu nad yw'n cynnwys taliadau llog morgeisi (RPIX)". Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai 2.3% fyddai gwerth yr RPIX ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, tra bod gwerth y CPI yn is ar 1.6%. Mae paragraff 6.6(b) o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi *"o safbwynt myfyriwr, disgwylir i'r CPI fod ychydig yn is na'r RPIX, ac felly bydd y cynnydd blynyddol i'r cymorth yn llai o dan yr opsiwn hwn o flwyddyn academaidd 2025/26*".

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau i wallau hanesyddol a nodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ynghylch Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/810 (Cy. 131)) (SL(6)510). Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei nodi yn adran 2 o'r Memorandwm Esboniadol (Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.